Crynodeb

Adolygiad gwybodaeth 3: Mathau ac ansawdd gwybodaeth mewn gofal cymdeithasol

social care institute for excellence

Hydref 2003

Yn yr adolygiad cyffrous a gwreiddiol hwn, gofynna'r awduron: o ble y daw gwybodaeth, i bwy mae'n perthyn, a sut ydyn ni'n barnu ei gwerth?

Mae'r holl gwestiynau hyn yn sylfaenol i'r ffordd y mae SCIE yn edrych ar 'wybodaeth'. Wrth fynd ati i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y gwasanaethau hynny, mae'n bwysig bod eu tystiolaeth hwy yn cael yr un parch. Mae'r un peth yn wir am weithwyr gofal cymdeithasol: mae profiad a gwybodaeth staff y rheng flaen wedi cael eu diystyru'n rhy aml yn y gorffennol. Bu SCIE yn chwilio am ffordd o gynnwys yr holl fathau hyn o wybodaeth, a'r adolygiad hwn yw'r cam cyntaf.

- Daeth aelodau Tîm yr Adolygiad o nifer o gefndiroedd gwahanol. Ni chymerwyd dim yn ganiataol. Buont yn darllen, meddwl ac ymgynghori er mwyn chwilio am ddulliau syml o ddod o hyd i wybodaeth o wir werth – i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol.
- Roedd y cam cyntaf yn golygu meddwl am y ffordd orau o rannu'r wybodaeth sydd gennym yn barod yn fathau neu gategorïau. Roedd sawl dull y gallent fod wedi'u dewis – dadansoddi ar sail pwrpas y wybodaeth, er enghraifft.
- Ar ôl rhoi cynnig ar rai dulliau, penderfynwyd yn y pen draw ar ddull o rannu yn seiliedig ar ffynhonnell y wybodaeth, hynny yw, o ble y daw'r adroddiad? Defnyddiwr gwasanaethau neu ofalwr, gweithiwr cymdeithasol, ymchwilydd? Gwelir eu tabl o bum 'ffynhonnell' ar dudalen 5.
- Mae eu harweiniad 'ffynhonnell-seiliedig' i fathau o wybodaeth yn dechrau gyda'r syniad fod pob math o wybodaeth yn haeddu'r un parch a sylw.

Ond wrth gwrs nid yw hyn yn golygu fod pob gwybodaeth yr un mor 'dda' neu 'ddefnyddiol' â'i gilydd. O ba le bynnag y daw, gall fod wedi cael ei chasglu neu'i chofnodi'n wael, gall wneud honiadau di-sail neu anwybyddu tystiolaeth o ffynonellau eraill. Sut allwn ni fod yn siŵr ein bod yn darparu gwybodaeth o ansawdd y gall pawb ymddiried ynddi? Tasg nesaf Tîm yr Adolygiad oedd dod o hyd i ffyrdd o asesu ansawdd gwybodaeth.

- Yn gyntaf edrychwyd ar y mathau o safonau ansawdd y dylai pob math o wybodaeth gofal cymdeithasol eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys profion synnwyr cyffredin y mae pawb yn eu defnyddio ar gyfer pob math o wybodaeth: ydych chi'n deall y wybodaeth? Wyddoch chi o ble mae'r wybodaeth yn dod? Cytunwyd ar chwe phrawf sylfaenol y mae'n rhaid i bob gwybodaeth eu pasio, i fod o werth.
- Yna, edrychwyd i weld a oes safonau penodol ar gael y gellir cymharu'r gwahanol fathau o wybodaeth yn eu herbyn. Mae ansawdd ymchwil, er enghraifft, eisoes yn cael ei farnu yn ôl set o reolau. Ceir crynodeb o'r safonau 'ffynhonnell-seiliedig' hyn yn y tabl isod.

- Casgliad y Tîm oedd mai'r cwestiwn cyntaf i'w ofyn ar gyfer unrhyw ddarn o wybodaeth yw, 'A yw'n TCPDPHP?!'.
  - > Tryloywder – a yw'r rhesymau drosti yn eglur?
  - > Cywirdeb – a yw o ddifrif yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol?
  - > Pwrpasedd – a yw'r dull a ddefnyddir yn addas ar gyfer amcanion y gwaith?
  - > Defnydd – a yw'n cynnig atebion i'r cwestiynau a osodwyd?
  - > Priodoldeb – a yw'n gyfreithiol a moesol?
  - > Hygyrchedd – a allwch ei deall?
  - > Penodol – a yw'n bodloni'r safonau ansawdd a ddefnyddir eisoes ar gyfer y math yma o wybodaeth?

Dechrau'n unig yw'r fframwaith hwn. Nid yw'n dweud wrthych pa wybodaeth sy'n dda, ond mae'n eich helpu i weld gwendidau. Ac wrth weithio arno, gwnaeth y Tîm nifer o ddarganfyddiadau. Gwelwyd, er enghraifft, fod safonau ar gyfer pob 'ffynhonnell' yn cael eu cyfoethogi gan ddatblygiad parhaus safonau eraill. Mae egwyddor cyfranogiad a welir mewn gwybodaeth defnyddwyr wedi lledu i wybodaeth ymchwil a threfniadol. Mae rhai o'r rheolau gwybodaeth ymchwil yn cael eu defnyddio ar gyfer mathau eraill o wybodaeth.

Yn y pen draw, gofynna'r adolygiad gwestiynau sylfaenol am ystyr tystiolaeth. Tybiwyd yn aml iawn mai ei hystyr yw tystiolaeth ymchwil – ond nid dyna'r unig fath, ac mae'r adolygiad yn dweud hynny. Mae llunwyr polisïau, cyrff sy'n darparu gwasanaethau, defnyddwyr a gofalwyr ac ymarferwyr oll yn mynd i gael dweud eu dweud.

Cyflwyniad

Y crynodeb gorau o sylfaen gwaith SCIE yw 'gwell arfer ar sail gwell gwybodaeth'. Ond nid ar chwarae bach y llwyddir i adnabod y 'gorau' ymhlith y casgliad enfawr o wybodaeth sydd wedi cronni ym maes gofal cymdeithasol. Pwrpas y prosiect dau-gam hwn oedd dynodi'r prif fathau o ymchwil, profiad a doethineb sy'n cyfuno i ffurfio seiliau gwybodaeth gofal cymdeithasol; a mynd ymlaen o hynny i awgrymu fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwybodaeth o unrhyw fath.

Dosbarthu gwybodaeth mewn gofal cymdeithasol

Mae maes gwybodaeth gofal cymdeithasol yn arbennig o eang ac amrywiol. O ystyried hynny, cytunodd Tîm yr Adolygiad â SCIE ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i'w dadansoddiad.

- Dylai'r dosbarthiad fod yn gynhwysfawr, yn glir ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Un o'i swyddogaethau oedd cynnig sylfaen i'r gwaith o ddatblygu ymhellach y Llyfrgell Gofal Cymdeithasol electronig (eLSC). Yr allwedd oedd cytuno ar ddiffiniadau o fathau oedd yn benodol yn ogystal ag yn eglur, cynhwysol a hygyrch.
- Dylai'r dosbarthiad fod yn 'ddeallusol amddiffynadwy' – hynny yw, dylid ei gyrraedd ar hyd llwybr oedd yn eglur, systematig, tryloyw a phrofedig. Dylai allu cyfuno a gwahaniaethu

rhwng pob math hysbys o wybodaeth gofal cymdeithasol, heb eithrio na rhoi ffafriaeth i unrhyw un math.

- Dylai gynnig cwmpawd ar gyfer y sawl sy'n ei ddefnyddio, a'u cyfeirio at wybodaeth briodol ar gyfer eu maes penodol neu wybodaeth angenrheidiol nhw mewn gofal cymdeithasol. Er y dylai'r dosbarthiad ddarparu ar gyfer pob math o wybodaeth, dylai alluogi defnyddwyr i ddewis y wybodaeth fyddai fwyaf defnyddiol iddyn nhw yn eu sefyllfa arbennig hwythau.
- Yn bwysig iawn, trwy SCIE, dylai'r dosbarthiad a awgrymir gyfleu'r neges fod gan bob ffynhonnell gwybodaeth rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o ddatblygu sylfeini tystiolaeth gofal cymdeithasol. Ni ddylai'r dosbarthiad awgrymu hierarchaeth. Ni ddylai esgeuluso ffynonellau gwybodaeth sy'n anffurfiol neu'n ymhlyg, sydd ar hyn o bryd yn anffasiynol neu'n ymddangos yn llai cadarn.

Y gorolwg gwreiddiol

Wrth bori am y tro cyntaf trwy'r llenyddiaeth berthnasol lluniwyd rhestr o fwy na dwsin o fathau o wybodaeth, pob un â'i ddulliau, ei safonau a'i draddodiad ei hun. Y dasg nesaf oedd amlinellu rhai egwyddorion dosbarthu cyffredinol:
Mae system ddosbarthiad yn edrych ar gorff o wybodaeth a'i rannu i'r mathau pwysicaf neu fwyaf amlwg –

A B C D E F

Mae pob math wedyn yn gallu rhannu'n ddwy elfen neu ragor, a phob elfen yn rhannu'n rhagor o is-elfennau – fel gwreiddiau'n lledu o un coesyn:



Dewiswyd y math yma o ddosbarthiad 'gwreiddiau' gan Dîm yr Adolygiad oherwydd y gall ddisgrifio maes cymhleth yn eglur, ac oherwydd ei fod yn gweddu i drefniadau storio ac adfer electronig.

Er y cymharwyd cryfderau a gwendidau dosbarthiadau sy'n bod yn barod, ni lwyddwyd i ddod o hyd i unrhyw un oedd yn cwmpasu maes gwybodaeth gofal cymdeithasol yn ei grynswth, ond

dynodwyd dau ddosbarthiad – 'pwrpas-seiliedig' a 'ffynhonnell-seiliedig' – oedd yn cynnig y potensial o gael eu hehangu a'u haddasu.

Ymgynghorwyd ar gasgliadau'r prosiect gyda nifer o wahanol randdeiliaid ar hyd pob cam o'r daith. Wrth i'r Tîm nesu at ddosbarthiad potensial y gallent gytuno arno, cyflwynwyd y dewisiadau i grŵp o 19 o aelodau'r gymuned defnyddwyr gwasanaethau. Y prif negeseuon oedd:

- fod yn rhaid i ddyfodol gwybodaeth gofal cymdeithasol ymateb i safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau yn llawer mwy effeithiol, a'u hadlewyrchu;
- y dylai pob strategaeth ymchwil, o ba le bynnag y dônt, gael eu barnu yn ôl yr un safonau neu feini prawf; ac
- y dylai'r safonau ansawdd a ddefnyddir ar gyfer ymchwil a reolir gan ddefnyddwyr gael eu defnyddio ar gyfer pob strategaeth ymchwil sy'n cynhyrchu gwybodaeth ym maes gofal cymdeithasol.

Y dosbarthiad

Gwnaed y dewis terfynol rhwng dosbarthiad pwrpas- neu ffynhonnell-seiliedig trwy ddefnyddio'r naill a'r llall ar 50 o bapurau gofal cymdeithasol diweddar. Daeth Tîm yr Adolygiad i'r farn fod dull ffynhonnell-seiliedig yn gallu cwmpasu pob math o wybodaeth gofal cymdeithasol. Roedd ganddo hefyd y fantais o allu cyflwyno pob ffurf yn gyfartal â'r gweddill. Tra'i fod yn fwy eglur a syml i'w ddefnyddio na'r dull arall, roedd hefyd yn gallu ymdopi â systemau cymhlethach (ar lefel yr 'is-wreiddiau' a ddangoswyd uchod).

Y pum categori a ddewiswyd ar gyfer y rhaniad a awgrymir yw:

Ffynhonnell 1	**Ffynhonnell 2**	**Ffynhonnell 3**	**Ffynhonnell 4**	**Ffynhonnell 5**
Trefniadol	Ymarferydd	Cymuned bolisi	Ymchwil	Defnyddwyr a gofalwyr
Gwybodaeth a gafwyd o drefnu gofal cymdeithasol	Gwybodaeth a gafwyd o wneud gofal cymdeithasol	Gwybodaeth a gafwyd o'r cyd-destun polisi ehangach	Gwybodaeth a gasglwyd yn systematig gyda bwriad penodol	Gwybodaeth a gafwyd trwy brofiad o ddefnyddio gwasanaethau a myfyrio arnynt

Fframwaith ar gyfer asesu ansawdd

Canolbwyntiodd ail gam y prosiect ar chwilio am fframwaith a fyddai'n cwmpasu'r holl ffynonellau gwybodaeth tra gwahanol hyn, a datblygu dulliau o asesu ansawdd a oedd yn berthnasol i bob ffynhonnell benodol.

Dechreuodd y chwilio trwy ddatblygu chwe safon y dylid eu defnyddio ar gyfer pob gwybodaeth o ba ffynhonnell bynnag. Bwriad y rhain yw braenaru'r tir a gosod sylfaen gadarn ar gyfer safonau ffynhonnell-seiliedig.

Maent fel a ganlyn.

1. Tryloywder

Egwyddor: dylai'r broses o ddatblygu gwybodaeth ddangos yn eglur sut y cafodd ei chynhyrchu; egluro'r nodau, yr amcanion a phob cam ar hyd taith y ddadl sy'n dilyn, a galluogi darllenwyr i gael dealltwriaeth gyffredin o'r rhesymau sylfaenol drosti.

Enghreifftiau
- Cofnod o nodiadau achos ymarferydd iechyd meddwl – a yw'n cynnwys y rhesymau dros gymryd y camau a awgrymir?
- Astudiaeth ymchwil ansoddol ar fabwysiadu – a yw'n cynnwys manylion llawn am y ffordd y cynhaliwyd yr astudiaeth, pwy gymerodd ran a pha dechnegau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad?

2. Cywirdeb

Egwyddor: dylai pob darn o wybodaeth a gyflwynir gael eu cefnogi gan a bod yn gydnaws â'r digwyddiadau, profiadau, hysbyswyr a ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth eu cynhyrchu. Os yw gwybodaeth yn mynd i fodloni'r safon hon, dylai ddangos bod pob honiad, casgliad ac argymhelliad yn seiliedig ar wybodaeth berthnasol a phriodol.

Enghreifftiau
- Mae grŵp yn cynhyrchu adroddiad sy'n honni cyfleu profiadau defnyddwyr o wasanaethau gofal cartref – ai honni safbwyntiau'r defnyddwyr yn unig a wneir, neu a yw eu llais yn cael ei glywed yn glir yn y data a'i adlewyrchu yn y dadansoddiad?
- Cynhyrchir dogfen bolisi sy'n honni bod yn adolygiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth bresennol ar fabwysiadu - a yw'r ffordd y trafodir ac y dadansoddir deddfwriaeth flaenorol yn ddewisol neu'n hollgynhwysol?

3. Pwrpasedd

Egwyddor: dylai'r agweddau a'r dulliau o gael gwybodaeth a ddefnyddir weddu neu "fod yn addas" i'r dasg dan sylw. Os yw gwybodaeth yn mynd i fodloni'r safon hon, dylai ddangos bod y chwilio wedi dilyn dull addas er mwyn bodloni'r amcanion a nodwyd ar gyfer yr ymarferiad.

Enghreifftiau
- Mae awdurdod lleol yn cyhoeddi strategaeth sy'n honni mesur newidiadau ym mhatrymau defnyddio'r gwasanaethau yn sgîl trefn newydd ar gyfer y gwasanaethau gofal preswyl – a yw archwiliad sy'n defnyddio dangosyddion cyfranogi safonol cyn ac ar ôl y newid yn fwy priodol nac arolwg boddhad neu nodiadau achosion ymarferwyr?

- Mae tîm datblygu polisi yn comisiynu adroddiad i wella trefniadau gweithredu manylion dyfarniadau cymunedol – a fyddai gwerthusiad proses yn fwy addas na 'darn o feddwl' academaidd neu adroddiad archwiliad?

4. Defnydd

Egwyddor: dylai gwybodaeth weddu i'r sefyllfa gwneud-penderfyniadau y bwriedir ei defnyddio ynddi, a'r wybodaeth sydd ei hangen ar y ceisydd gwybodaeth. Os yw gwybodaeth yn mynd i fodloni'r safon hon dylai fod yn addas i'r pwrpas, gan ddarparu atebion sy'n gweddu mor agos ag y bo modd i'r cwestiwn.

Enghreifftiau

- Mae ymarferwyr yn chwilio am wybodaeth am sut i helpu teuluoedd o fewnfudwyr cenhedlaeth-gyntaf sy'n dioddef o broblemau cysylltiedig ag alcohol – a oes angen iddynt ystyried yr anhwylder yn unig neu a ddylent edrych hefyd ar wybodaeth sy'n ymwneud â chefndir, hanes, diwylliant a chyd-destun y cleientiaid?
- Mae uwch reolydd gofal plant yn ystyried y cydbwysedd rhwng gwasanaethau preswyl a chymunedol dros y degawd nesaf – a fyddai Papur Gwyrdd/Gwyn neu adroddiad gweithgor syniadau dylanwadol yn fwy defnyddiol na chanlyniadau adolygiadau Gwerth Gorau neu ganlyniadau arolygon defnyddwyr?

5. Priodoldeb

Egwyddor: dylai gwybodaeth gael ei chreu a'i rheoli'n gyfreithlon, yn foesegol a chan ofalu am anghenion yr holl randdeiliaid perthnasol. Os yw gwybodaeth yn mynd i fodloni'r safon hon, dylai gyflwyno tystiolaeth ddigonol, sy'n briodol i bob pwynt cyswllt, o gydsyniad gwybodus y rhanddeiliaid perthnasol.

Enghreifftiau

- Mae grŵp gofalwyr yn rhannu gwybodaeth am ei aelodau gyda chyrff eraill – a gafwyd cydsyniad yr holl aelodau perthnasol?
- Mae un o adrannau'r llywodraeth yn ymgynghori'n rheolaidd gyda'r un gymuned – a yw wedi ystyried neu ddefnyddio canlyniadau o ymarferion blaenorol, ac a ellir dangos hyn?

6. Hygyrchedd

Egwyddor: dylid cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n bodloni anghenion y sawl sy'n chwilio am y wybodaeth. Os yw gwybodaeth yn mynd i fodloni'r safon hon, ni ddylid eithrio unrhyw ddarpar ddefnyddiwr oherwydd yr arddull a ddefnyddir.

Enghreifftiau

- Mae tîm ymchwil yn cynhyrchu adroddiad ar awtistiaeth ar gyfer rhieni – a yw'n rhy hir, yn rhy fanwl ac a yw'n defnyddio gormod o iaith dechnegol? A yw mor nawddoglyd fel ei fod yn sarhaus?

- Mae'r Adran Iechyd yn paratoi canllawiau ar godi tâl am ofal preswyl ar gyfer yr henoed – a ydynt yn eglur a chynhwysfawr neu'n annelwig a dewisol?

Safonau penodol ar gyfer mathau penodol o wybodaeth

Mae safonau cyffredinol fel y rhain yn bwysig, ond nid yn ddigon pwysig. Mae'n rhaid i bob darn o wybodaeth fodloni hefyd y safonau sy'n weithredol yn y maes gwybodaeth hwnnw. Cymharwyd y safonau hyn yn ôl y cwestiynau canlynol:

- Beth mae'r safonau'n eu cynnwys?
- Beth yw tarddiad y safonau?
- Beth yw natur y safonau?
- Sut gaiff y safonau eu gweithredu?
- Beth yw eu defnydd a'u heffaith?

Safonau: y sefyllfa bresennol

	Ffynhonnell 1	Ffynhonnell 2	Ffynhonnell 3	Ffynhonnell 4	Ffynhonnell 5
	Gwybodaeth drefniadol	Gwybodaeth ymarferwyr	Gwybodaeth cymuned bolisi	Gwybodaeth ymchwil	Gwybodaeth defnyddwyr a gofalwyr
Beth maen nhw'n gynnwys?	Pob gweithgaredd gofal cymdeithasol	Ychydig iawn	Ychydig iawn	Pob math o ymchwil gymdeithasol	Ychydig iawn
Natur	Rheolau, rheoliadau, codau ymarfer, canllawiau statudol a chymeradwy	Cuddiedig, ond yn sylfaenol wrth i'r ymarferydd wneud penderfyniadau	Newydd ddechrau arwyddion o arfer da yn hytrach na safonau ffurfiol	Sawl set o reolau methodolegol	Newydd ddechrau seiliedig ar y galw am atebolrwydd a chyfranogiad
Tarddiad	Cyrff mewnol, ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Cynyddu cyfraniad cyrff allanol trwy brosesau ymgynghori	Datblygwyd o ddadansoddiad o arfer myfyriol gan ymchwilwyr yn gweithio gydag ymarferwyr, ac o safonau ymchwil ansoddol	Cyrff mewnol ar hyn o bryd, ond y potensial hefyd o ddefnyddio gweithgorau syniadau, pleidiau gwleidyddol, ysgolheigion polisi cyhoeddus	Ymchwil mewnol. Mae cyfraniad adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth yn cynyddu	Gallai ddatblygu mewn sawl ffordd: trwy gyrff defnyddwyr/gofalwyr, ymchwil, cymuned bolisi neu'r llywodraeth
Dechreuwyd gan	Gweithredu statudol, arolygiad ac archwiliad	Anhysbys	Anhysbys	Hunan-reolaeth fewnol; yn ddiweddar fe gyflwynwyd trefn o	Anhysbys

				archwilio a monitro allanol	
Defnydd ac effaith	Cyfyngir y defnydd gan statud	Anhysbys	Anhysbys	Defnyddir yn aml, y gweithredu weithiau'n wan, effaith i raddau helaeth yn anhysbys	Anhysbys

Archwiliodd Tîm yr Adolygiad bob math o wybodaeth (gan ddefnyddio eu dosbarthiad ffynhonnell-seiliedig) ac ystyried y safonau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar sail y pum cwestiwn yma. Ceir canlyniadau llawn pob ffynhonnell yn yr adroddiad llawn.

Casgliad

Ac eithrio'r casgliadau manwl, y gwersi cyffredinol o'r astudiaeth yw:

- Mai'r cwestiwn cyntaf i'w ofyn am bob darn o wybodaeth yw, 'A yw'n TCPDPHP?!' – hynny yw, a yw'n bodloni'r holl safonau generig a nodwyd yma, yn ogystal â'r safonau a nodwyd ar gyfer ei math arbennig ei hun o wybodaeth?
- Gall, a dylai, pob math o ffynhonnell wybodaeth ddysgu gan y safonau a ddefnyddiwyd yn y gweddill.
- Nid yw unrhyw fframwaith safonau yn cymryd lle barn ynglŷn ag ansawdd.

Mae'r Adolygiad yn trafod cwestiynau am:

- Pwy sy'n penderfynu pa ymchwil a wneir?
- Pa werth a roddir ar brofiad personol?
- Barn pwy sy'n cyfrif o ran y canlyniadau gwirioneddol bwysig?

Mae'r rhain oll yn faterion y bwriada SCIE dorri tir newydd arnynt. Mae'r Adolygiad hwn wedi rhoi cychwyn ar y broses honno….

Tîm yr Adolygiad: Ray Pawson, Annette Boaz, Lesley Grayson, Andrew Long a Colin Barnes

Social Care Institute for Excellence
Goldings House
2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
Ffôn 020 7089 6840
Ffacs 020 7089 6841
Ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk

Bydd fersiynau braille, ar dâp ac argraffiadau print bras ar gael ar gais.

Mae fersiwn lawn o'r Adolygiad Gwybodaeth ar gael ar wefan SCIE ac mewn print oddi wrth SCIE.